Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Ymweliadau ag ysgolion fel rhan o'r Ymchwiliad i statws Bagloriaeth Cymru: 4 Hydref 2018

Ar 4 Hydref, fel rhan o'i ymchwiliad i Statws Bagloriaeth Cymru, ymwelodd Aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg â nifer o ysgolion/colegau ledled Cymru i glywed barn disgyblion sy'n astudio ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru a beth yw ei fanteision a'i anfanteision. Roedd y trafodaethau'n seiliedig ar y pum thema allweddol a ganlyn:

Thema 1: Y graddau y mae dysgwyr, rhieni, gweithwyr proffesiynol ym maes addysg mewn ysgolion a cholegau, sefydliadau addysg uwch a chyflogwyr yn deall ac yn gwerthfawrogi Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Thema 2: Y graddau y mae dysgwyr, gweithwyr proffesiynol ym maes addysg mewn ysgolion a cholegau, cyflogwyr a sefydliadau addysg uwch o'r farn bod Bagloriaeth Cymru yn gymhwyster cyfwerth, trwyadl.

Thema 3: Statws Cymhwyster Bagloriaeth Cymru mewn ysgolion a cholegau, gan gynnwys targed Llywodraeth Cymru o ran sicrhau bod y cymhwyster yn cael ei fabwysiadu'n gyffredinol, ac effaith bosibl y dull gweithredu hwn.

Thema 4: Yr effaith ehangach y mae astudio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn ei chael ar bynciau eraill y cwricwlwm ac ar y ddarpariaeth addysg.

Thema 5: Manteision ac anfanteision Cymhwyster Bagloriaeth Cymru i ddysgwyr, ysgolion a cholegau, sefydliadau addysg uwch a chyflogwyr.

Mae'r nodyn hwn yn crynhoi'r safbwyntiau a fynegwyd gan ddisgyblion yn ystod yr ymweliadau ac nid sylwadau gan unigolion nac ysgolion/colegau unigol ydynt. Nid barn yr ysgolion/colegau yr ymwelwyd â hwy, Cynulliad Cenedlaethol Cymru nac Aelodau'r Cynulliad yw'r rhain ychwaith o reidrwydd.

Thema 1: Y graddau y mae dysgwyr, rhieni, gweithwyr proffesiynol ym maes addysg mewn ysgolion a cholegau, sefydliadau addysg uwch a chyflogwyr yn deall ac yn gwerthfawrogi Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Diben

Roedd consensws cyffredinol bod diffyg eglurder a dealltwriaeth sylweddol ynghylch diben Bagloriaeth Cymru. Roedd rhai myfyrwyr o'r farn bod Bagloriaeth Cymru yn ddefnyddiol, ond cafwyd sylwadau gan eraill fel “gall fod yn gwrs gwag”, “nid oes dim i gael eich dannedd i mewn iddo”, ac “nid oes sylwedd i'r cwrs”.

Roedd rhai myfyrwyr yn teimlo bod angen gosod amcanion Bagloriaeth Cymru yn gliriach. Teimlwyd eu bod yn eithaf eang a chyffredinol, ac er efallai bod disgyblion yn ymwybodol o beth maent yn ei wneud, nid ydynt o reidrwydd yn gwybod y rheswm dros hynny – gellid rhannu'r amcanion yn feysydd llai. Credai eraill fod gormod o adrodd am sgiliau yn hytrach na'u datblygu, gyda llawer yn nodi bod “gormod o baratoi.”

Cydrannau'r Fagloriaeth

Roedd cytundeb cyffredinol bod y Dystysgrif Her Sgiliau yn ddefnyddiol iawn, ac yn cyflawni'r diben a fwriadwyd. Roedd rhai dysgwyr yn teimlo ei fod yn ddefnyddiol iawn wrth ddatblygu sgiliau bywyd. Fodd bynnag, dywedodd rhai y byddai'n fuddiol pe bai'n gliriach sut y mae'r Dystysgrif yn ymwneud ag astudiaeth yn y dyfodol (e.e. mae nodweddion tebyg rhwng yr astudiaeth annibynnol ac ysgrifennu traethawd hir).

Roedd rhai dysgwyr wedi mwynhau astudio Bagloriaeth Cymru. Roeddent wir yn mwynhau'r pwyslais ar fenter, prosiectau cymunedol a dysgu annibynnol. Y lleiaf defnyddiol oedd yr Her Fyd-eang a dywedodd rhai y dylid cael gwared ar hyn.

Dywedodd rhai myfyrwyr y byddent yn hoffi gweld mwy o ddysgu am faterion “byd go iawn” o fewn Bagloriaeth Cymru fel addysg ariannol. Dywedodd un dysgwr fod ei wersi ABCh wedi troi'n wersi Bagloriaeth Cymru, ac felly bod y sgiliau bywyd a ddysgir yn y gwersi ABCh wedi diflannu.

Gwerth

Caiff Bagloriaeth Cymru ei weld yn rhywbeth cadarnhaol iawn ymysg ddysgwyr ôl-16 ond yn 'wastraff amser' i ddysgwyr cyn-16. Ceir achosion o ddyblygu hefyd. Y peth gorau yw ei chadw ar gyfer disgyblion ôl-16.

Roedd canfyddiad nad oedd Bagloriaeth Cymru yn cael ei pharchu ac nad yw'n 'bwnc' mewn gwirionedd. Fodd bynnag, dywedodd y rhai â brodyr a chwiorydd hŷn a oedd wedi ei hastudio ei bod yn haws gweld y manteision.

Dywedodd rhai disgyblion eu bod yn cael eu 'bwydo â llwy' er mwyn sicrhau bod Bagloriaeth Cymru yn cael ei chwblhau, gan leihau unrhyw wir werth i'r cymhwyster.

Roedd rhai disgyblion yn hoffi'r ffaith nad oedd angen sefyll arholiad ar gyfer Bagloriaeth Cymru uwch ac roeddent yn croesawu'r cyfle i ddilyn rhywbeth a oedd yn llai ffurfiol ac academaidd na Safon Uwch. Fodd bynnag, nid oedd pob un yn credu bod hyn yn gwneud iawn am yr ymrwymiad amser sy'n ofynnol ar gyfer y cymhwyster fel y mae wedi'i strwythuro ar hyn o bryd. Ar y sail honno, roeddent yn teimlo, er mwyn bod yn fwy gwerthfawr, y byddai angen iddo fod yn llawer symlach.

Dywedodd rhai disgyblion fod Bagloriaeth Cymru uwch ond yn ategu graddau i fynd i'r brifysgol neu'n offeryn i'w galluogi i roi'r gorau i un pwnc Safon Uwch.

Rhieni

Dywedodd llawer o ddisgyblion nad yw rhieni yn deall gwerth Bagloriaeth Cymru, gan esbonio bod llawer ohonynt yn credu ei fod yn arwain at lai o amser astudio mewn pynciau eraill. Priodolodd myfyrwyr hyn i'r ffaith nad yw rhieni o reidrwydd wedi astudio cymhwyster tebyg ac felly nid ydynt o reidrwydd yn ei ddeall nac yn annog eu plant i fanteisio arno.

Addysg uwch

Cytunodd myfyrwyr fod y rhan fwyaf o brifysgolion bellach yn derbyn Bagloriaeth Cymru, gyda rhai eithriadau. Roedd pryderon ynghylch a yw prifysgolion y tu allan i Gymru yn gweld ei gwerth, er mai prin oedd y dystiolaeth gadarn na chafodd ei derbyn mewn gwirionedd. Ymddengys fod rhai prifysgolion yn nes at Gymru e.e. Bryste / Caerfaddon yn edrych arni mewn modd ffafriol.

Mewn perthynas â gwneud cais i brifysgol, dywedodd rhai myfyrwyr fod Bagloriaeth Cymru wedi bod yn “ddefnyddiol iawn” wrth gwblhau datganiadau personol ar ffurflenni UCAS, gan helpu i gryfhau'r cais.

Roedd myfyrwyr yn cydnabod hefyd y gall prifysgolion hefyd dderbyn graddau is mewn pynciau eraill os llwyddwyd i basio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Nodwyd, fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn cael ei werthfawrogi tan ar ôl i'r cymhwyster gael ei gwblhau, ac awgrymwyd y dylid gwneud hyn yn glir o'r dechrau fel bod myfyrwyr yn gwneud mwy o ymdrech.

Cyfathrebu

Dywedodd rhai myfyrwyr y gallai fod manteision i newid enw'r cymhwyster. Mynegwyd y farn nad yw prifysgolion Lloegr yn deall yn llawn oblygiadau Bagloriaeth Cymru, nad yw'n ymwneud â Chymru yn unig, a'i bod yn ymwneud â'r sgiliau rydych chi'n eu datblygu. Un argymhelliad penodol oedd dileu'r gair 'Cymru' o'r enw a rhoi gair arall yn ei le e.e. 'Bagloriaeth Sgiliau'.

Roedd cytundeb cyffredinol bod angen strategaeth farchnata i addysgu prifysgolion a chyflogwyr nad ydynt yng Nghymru. Teimlwyd hefyd fod angen strategaeth farchnata ar gyfer rhieni gan nad oedd gan lawer syniad beth yw'r cymhwyster.

Thema 2: Y graddau y mae dysgwyr, gweithwyr proffesiynol ym maes addysg mewn ysgolion a cholegau, cyflogwyr a sefydliadau addysg uwch o'r farn bod Bagloriaeth Cymru yn gymhwyster cyfwerth, trwyadl.

Roedd rhai dysgwyr yn teimlo bod Bagloriaeth Cymru yn gymhwyster trylwyr. Gwelwyd bod y gwaith cwrs yn ddwys, ond ystyriwyd bod y prosiect unigol yn dda i ddisgyblion ddysgu'n annibynnol.

Dywedodd myfyrwyr eraill fod Bagloriaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo fel "cymhwyster hawdd" heb arholiad. Pwysleisiwyd mai maint y gwaith yn hytrach na'i gymhlethdod sy'n gyfrifol am ba mor anodd ydyw. Nodwyd hefyd ei bod yn anodd iawn deall y system raddio ac nad oedd ganddynt syniad o ba radd i'w disgwyl ar y diwedd. Eu nod cyffredinol oedd ei orffen yn hytrach na chyflawni unrhyw ansawdd penodol.

Roedd yna farn yr arferai Bagloriaeth Cymru fod yn gymhwyster haws ac mai dyma'r rheswm pam nad yw prifysgolion yn ei derbyn. Fodd bynnag nid yw bellach yn cael ei ystyried yn opsiwn hawdd ond nid yw prifysgolion yn ymwybodol o hyn.

Sgiliau

Roedd yna gymysgedd o safbwyntiau am y sgiliau a ddatblygir fel rhan o Fagloriaeth Cymru uwch:

- Roedd y rhai a oedd yn astudio'r dyniaethau yn teimlo ei bod yr un mor bosibl datblygu llawer o'r sgiliau sy'n rhan o Fagloriaeth Cymru (e.e. cyfeirio ffynonellau, ysgrifennu estynedig ac ati) drwy astudio Safon Uwch yn unig.
- Caiff pobl eu tynnu at y meysydd y maent fwyaf cyfforddus â hwy wrth gwblhau'r gwaith grŵp - e.e. os oes yna waith rhifedd, mae'r rhai sy'n gryf mewn mathemateg yn ei gwblhau tra bod eraill yn gallu ei osgoi os nad dyna yw eu cryfder.

– Ar sail hyn, ystyrir bod llawer o'r ymarferion sy'n rhan ohono yn "ddibwrpas" - naill ai'n dyblygu sgiliau a ddysgwyd eisoes ar lefel genedlaethol / sylfaen neu'n gorfodi pynciau y mae disgyblion eisoes wedi dewis rhoi'r gorau iddynt am reswm da.

Disgrifiodd rhai disgyblion eu profiad o Fagloriaeth Cymru uwch fel llawer o 'gopïo a gludo' o lefel TGAU ac ychwanegu mwy o eiriau gwâg i'w llenwi. Awgrymodd nifer o ddisgyblion mai eu hathrawon oedd wedi eu hannog i wneud hyn.

Holodd rhai disgyblion am beth oedd budd cael cymhwyster a oedd yn canolbwyntio ar 'sgiliau bywyd' yn eu barn hwy. At hynny, roeddent yn cytuno pe byddai angen addysgu 'sgiliau bywyd', y byddai'n well gwneud hynny y tu allan i gymhwyster ffurfiol, er enghraifft mewn gwersi ABCh wythnosol. Teimlwyd y byddai hyn yn fwy effeithlon a buddiol.

Dywedodd eraill ei bod yn ymddangos bod Bagloriaeth Cymru yn canolbwyntio ar y rhai sydd am fynd ymlaen i addysg uwch yn fwy na'r rhai sydd am fynd ymlaen i brentisiaeth neu gyflogaeth.

Roedd teimlad bod ehangder y tasgau dan sylw yn gwanhau gwerth cyffredinol Bagloriaeth Cymru – roedd y disgyblion yn teimlo y byddai'n well pe baent yn gallu canolbwyntio ar rai elfennau yn hytrach na phob un, yn dibynnu ar eu sgiliau, diddordebau a'u cynlluniau yn y dyfodol.

Dylanwad athrawon ac effaith y Fagloriaeth arnynt

Roedd barn gref bod brwdfrydedd ac agwedd gadarnhaol athrawon am Fagloriaeth Cymru yn trosglwyddo i'r dysgwyr. Ond, roedd yna farn nad yw athrawon yn cael digon o hyfforddiant, ac y byddai'n well cael rhagor o athrawon Bagloriaeth Cymru, er mwyn ei haddysgu'n iawn.

Mynegodd rhai y farn ei bod yn anodd cymryd Bagloriaeth Cymru o ddifrif os nad yw athrawon yn gwneud hynny. Dywedodd un myfyriwr ei fod wedi clywed athro yn dweud mai ef oedd yr un anlwcus yn gorfod addysgu Bagloriaeth Cymru. Teimlwyd bod yr agwedd negyddol hon yn trosglwyddo i'r disgyblion.

Cyfeiriodd nifer o fyfyrwyr at ddiffyg athrawon Bagloriaeth Cymru arbenigol, gan nodi nad yw athrawon yn gymwys i addysgu Bagloriaeth Cymru yn yr un modd ag y maent ar gyfer pwnc arbenigol.

Mae'r pwysau ar athrawon yn sgil Bagloriaeth Cymru yn enfawr, yn enwedig gan nad oes gan lawer hyfforddiant ffurfiol. Mewn rhai achosion, rhaid i'r uwch-dîm arweinyddiaeth arwain ar hyn oherwydd diffyg amser athrawon. Bu achosion o ysgolion yn gorfod cynnal sesiynau gwyliau a sesiynau ar ôl ysgol i gwblhau'r gwaith.

Weithiau nid yw athrawon pwnc yn cefnogi Bagloriaeth Cymru, ac roedd yna farn bod angen mwy o gydweithredu ag adrannau eraill o fewn ysgolion. Agwedd athrawon yw bod Bagloriaeth Cymru yn cymryd amser addysgu oddi wrth bynciau eraill.

Blaenoriaeth gymharol a llwyth gwaith

Dywedodd rhai myfyrwyr y gall fod yn anodd dod o hyd i gyfleoedd i gwblhau'r her gymunedol 30 awr oherwydd yr ymrwymiad amser dan sylw a nifer y disgyblion sy'n chwilio am gyfleoedd yn yr un gymuned a allai fod yn gyfyngedig. Gall hyn fod yn faich amser ar yr ysgol, gyda staff yn aml yn gorfod helpu disgyblion i ddod o hyd i her addas neu ddyfeisio rhywbeth yn yr ysgol i fodloni'r meini prawf.

Dywedodd myfyrwyr eraill fod y llwyth gwaith yn hylaw, ac y gellir ei wneud yn eu hamser eu hunain, ond nid oedd rhai yn hoffi hyn gan eu bod yn ei chael hi'n anodd bod yn hunan-gymhellol. Dywedodd myfyrwyr y byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r prosiect unigol ganolbwyntio ar rywbeth y gallent fod yn dewis ei astudio yn y brifysgol.

Roedd rhai disgyblion o'r farn nad oedd digon o amser ar gael ar gyfer addysgu Bagloriaeth Cymru, gyda rhai ond yn cael un wers 1 awr yr wythnos. Esboniodd rhai myfyrwyr fod Bagloriaeth Cymru yn cael ei wthio i'r ochr ar adegau pan fydd pynciau eraill yn dod yn fwy dwys a phan fydd angen cwblhau ffurflenni UCAS.

Roedd yr amser a ddyrannwyd yn amrywio rhwng yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy. Nodwyd hefyd fod Bagloriaeth Cymru weithiau'n cael ei gwasgu i mewn ar ddiwedd y tymor.

Thema 3: Statws Cymhwyster Bagloriaeth Cymru mewn ysgolion a cholegau, gan gynnwys targed Llywodraeth Cymru o ran sicrhau bod y cymhwyster yn cael ei fabwysiadu'n gyffredinol, ac effaith bosibl y dull gweithredu hwn.

Dewis

Er bod y rhan fwyaf o'r myfyrwyr o'r farn bod Bagloriaeth Cymru yn werthfawr, cytunodd y rhan fwyaf y dylai fod yn ddewisol oherwydd gall fod rhesymau penodol pam nad yw rhai dysgwyr am ei astudio. Dywedodd rhai dysgwyr y dylent gael dewis i'w hastudio, oherwydd gall gorfodi rhywun i wneud hynny gael effaith negyddol arnynt.

Dywedodd rhai y byddai myfyrwyr yn ei mwynhau llai pe bai Bagloriaeth Cymru yn orfodol. Nodwyd, fodd bynnag, pe na bai'n orfodol, na fyddai neb yn ei dewis. Dywedodd y disgyblion mai ychydig iawn ohonynt fyddai'n dewis gwneud y cymhwyster am eu bod yn ei weld yn rhwystr i bynciau eraill gan fynd â'u sylw oddi arnynt.

Dywedodd rhai myfyrwyr er nad oeddent am astudio Bagloriaeth Cymru eu bod, o edrych yn ôl, yn falch eu bod wedi gwneud hynny.

Awgrymwyd y gallai Bagloriaeth Cymru fod yn orfodol, ond y gellid gosod meini prawf eithrio e.e. nifer y cyrsiau Uwch Gyfrannol neu Safon Uwch y gellir eu dilyn.

Effaith ar les

Nodwyd hefyd fod gorfodi disgyblion i wneud Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn arwain at straen ac y gallai fod rheswm dilys pam nad ydynt am wneud hynny. Dywedodd disgyblion eraill eu bod yn gweithio tan oriau mân y bore i orffen eu gwaith, a oedd yn cael effaith ar eu hiechyd meddwl.

Effaith ar ddewis canolfan ddysgu

Dywedodd y disgyblion mai un o'r prif resymau dros adael yr ysgol yn 16 oed i fynd i'r coleg oedd osgoi gorfod gwneud Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Nodwyd bod hyn, mewn rhai achosion, yn golygu gadael addysg cyfrwng Cymraeg lle byddent fel arall wedi aros mewn chweched dosbarth Cymraeg.

Cafwyd awgrym y gallai cydweithio ag ysgolion eraill symleiddio'r ffordd y caiff Bagloriaeth Cymru ei haddysgu, a fyddai o fudd i fyfyrwyr.

Thema 4: Yr effaith ehangach y mae astudio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn ei chael ar bynciau eraill y cwricwlwm ac ar y ddarpariaeth addysg.

Effaith ar opsiynau

Pwysleisiodd nifer o fyfyrwyr fod addysgu Bagloriaeth Cymru yn cymryd amser, sy'n gallu cyfyngu ar yr opsiynau. Dywedwyd hefyd, gan fod pynciau dewisol hefyd yn cymryd 2 - 3 awr yr wythnos, y gellid bod wedi dewis pwnc ychwanegol yn hytrach na Bagloriaeth Cymru. Mewn un ysgol yr ymwelwyd â hi, roedd Bagloriaeth Cymru yn cyfrif fel un TGAU gydag effaith uniongyrchol ar y dewis a oedd ar gael i fyfyrwyr.

Trosglwyddo sgiliau

Dywedodd rhai myfyrwyr nad yw'r sgiliau a ddysgir drwy'r Dystysgrif o reidrwydd yn drosglwyddadwy i bynciau eraill, ond eu bod yn ddefnyddiol ar gyfer bywyd bob dydd. Teimlwyd ei bod yn helpu i feithrin hyder ond bod ei manteision yn dibynnu ar yr unigolyn yn gwneud y gorau o'r cyfleoedd y mae'n eu darparu.

Roedd y myfyrwyr hynny nad oeddent yn academaidd yn cwestiynu ei defnydd ond yn cydnabod ei bod yn datblygu rhai sgiliau.

Teimlwyd bod yr Heriau yn gwneud i bethau “deimlo'n fwy real a mwy perthnasol” i fywyd bob dydd e.e. dywedodd rhai myfyrwyr fod yr her Fenter yn “ddefnyddiol iawn” gan ei bod yn eu dysgu am gyllid a chawsant gyfle i siarad â busnesau lleol.

Llwyth Gwaith

Dywedodd llawer o fyfyrwyr y gall y gwaith grŵp fod yn heriol iawn gydag effaith niweidiol ar gynnydd rhai dysgwyr mewn pynciau eraill. Awgrymodd rhai hefyd, yn achos gwaith grŵp, y gall un person gael effaith andwyol ar radd pawb.

Thema 5: Manteision ac anfanteision Cymhwyster Bagloriaeth Cymru i ddysgwyr, ysgolion a cholegau, sefydliadau addysg uwch a chyflogwyr.

Rhestrir llawer o'r manteision a'r anfanteision a amlygwyd gan fyfyrwyr o dan y pedair thema flaenorol. Fodd bynnag, daeth sylwadau eraill i law, sy'n cynnwys y canlynol:

- Mae Bagloriaeth Cymru yn rhoi enghreifftiau o'r byd go iawn, gyda phobl yn tanamcangyfrif ei gwerth go iawn.
- Mae Bagloriaeth Cymru yn rhoi cyfle i chi weithio gydag eraill sy'n datblygu sgiliau cyfathrebu, sy'n helpu wrth weithio yn y byd go iawn. Fodd bynnag, nododd eraill fod personoliaethau cryfach yn cymryd drosodd mewn gwaith grŵp ac nad yw eraill yn cael cyfle i leiso'u barn.
- Gall y sgiliau a ddysgir drwy Fagloriaeth Cymru fod yn ddefnyddiol mewn pynciau eraill.
- Caiff pob myfyriwr y cyfle i ddatblygu sgiliau fel ysgrifennu traethawd estynedig, rhywbeth na ellir ei ddatblygu i'r un graddau yn eu pynciau dewisol e.e. mathemateg neu'r gwyddorau.
- Mae modd rhoi gwerth i agwedd wirfoddoli Bagloriaeth Cymru ac mae hefyd yn helpu i ddatblygu sgiliau e.e. hyder i siarad. Fodd bynnag, nid yw gorfod ysgrifennu am y profiad yn dilyn hynny yn beth da.

Dywedodd cyn-ddisgybl a oedd yn mynychu un o'r ymweliadau fod y prosiect unigol yn sefyll allan fel rhywbeth yr oedd yn ei fwynhau ac wedi cael y budd mwyaf ohono ers gadael yr ysgol. Eglurodd ei fod wedi ei baratoi ar gyfer y brifysgol trwy roi cyfle iddo ddatblygu sgiliau ymchwil, cadw at derfynau geiriau, defnyddio cyfeiriadau Harvard ac ati.